# Cynnig i adleoli Ysgol Heol Goffa i safle newydd a chynyddu nifer y lleoedd o 75 i 120

## Dogfen Ymgynghorol



sirgar.llyw.cymru

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

**Yr Adain Moderneiddio Ysgolion**

**Sara Griffiths,** Rheolwr y Tîm Moderneiddio

Os oes angen y wybodaeth hon arnoch mewn print bras, mewn Braille, neu ar dâp sain, cysylltwch â'r Adran Addysg a Phlant

**E-bost: aaprma@sirgar.gov.uk**


**Rhif Ffôn: 01267 246476**

Fel rhan o'i rwymedigaeth statudol i adolygu nifer a mathau'r lleoedd sydd ar gael yn ei ysgolion, mae'r Cyngor Sir wedi mabwysiadu rhaglen eang ei chwmpas a luniwyd i wella adeiladau ysgolion ac i hyrwyddo cyfleoedd dysgu. Mae'r strategaeth yn adlewyrchu'r weledigaeth a'r polisïau a sefydlwyd gan y Cyngor Sir sy'n cwmpasu'r angen i ddarparu gwasanaethau sy'n cyrraedd safonau clir – o ran cost ac ansawdd – a hynny yn y modd mwyaf darbodus ac effeithiol. Yn ein hymgyrch i wella'n barhaus y gwasanaethau sydd ar gael i bob dysgwr, mae'n ofynnol ein bod yn manteisio i'r eithaf ar yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael i'r Cyngor, ac yn parhau i weithio mewn partneriaeth â phawb sydd â chyfraniad i'w wneud i'r broses ddysgu ac i lesiant plant a'u teuluoedd. Bydd angen i ysgolion y dyfodol fod yn ganolbwynt ar gyfer ystod eang o wasanaethau a drefnwyd yn bwrpasol i fodloni anghenion y gymuned mewn modd cydgysylltiedig.

Yn ffodus iawn mae gan Sir Gaerfyrddin nifer fawr o arweinwyr addysg ac athrawon dawnus, ond mae'r newidiadau parhaus a wneir i'r cwricwlwm yn rhoi pwysau mawr ar eu sgiliau i fodloni galwadau hynod amrywiol pob plentyn. Er mor bwysig yw'r prosesau dysgu a'r sgiliau addysgu, mae'n hanfodol fod gan athrawon wybodaeth drylwyr am bynciau os yw dysgwyr, â'u hamrywiol ddoniau mewn gwahanol feysydd, i ddarganfod eu galluoedd a'u datblygu i'r eithaf.

Mae disgwyl i'r ysgolion hynny a gynlluniwyd fel eu bod yn bodloni'r galwadau presennol ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys drwy ddulliau addysgu sy'n ysbrydoledig ac o safon uchel. Wrth gynllunio darpariaeth newydd bydd yn bwysig sicrhau bod ein hysgolion yn cynnwys yr offer priodol i hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer cynhwysiant cymdeithasol, datblygu cynaliadwy, cyfle cyfartal a dwyieithrwydd. Yn ymarferol, mae gofyn inni sicrhau bod y ddarpariaeth yn adlewyrchu patrymau newidiol y boblogaeth a bod ysgolion yn y mannau iawn a bod ganddynt adeiladau a chyfleusterau sy'n addas i ddiwallu anghenion pob dysgwr yn yr unfed ganrif ar hugain.

Bydd yr ymgynghori'n dilyn y canllawiau a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru ac yn cynnwys partïon penodol sydd â diddordeb. Bwriedir i'r wybodaeth a geir yn y ddogfen hon egluro'r cynigion ynghylch eich ysgol a chynorthwyo'r broses ymgynghori.



**Gareth Morgans**
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant

## Rhestr Byrfoddau

| | |
|---|---|
| ADY | Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| ND | Nifer derbyn |
| CSC | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| CC | Cynradd Cymunedol |
| DFf | Dwy Ffrwd |
| CS | Cyfrwng Saesneg |
| Estyn | Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| CALL | Cyfwerth ag Amser Llawn |
| ALl | Awdurdod Lleol |
| MCYC | Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru |
| RhMA | Rhaglen Moderneiddio Addysg |
| NOR | Nifer y disgyblion ar y gofrestr |
| CYBLD | Data Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion |
| ADDLl | Anawsterau Dysgu Dwys a Lluosog |
| RhA | Rhan-amser |
| ADD | Anawsterau Dysgu Difrifol |
| WESP | Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg |
| LlC | Llywodraeth Cymru |
| CC | Cyfrwng Cymraeg |

## Cynnwys


| Rhif | Pwnc | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad / Cefndir / Y Rhesymeg dros Newid | 6 |
| 2. | Y Broses Ymgynghori | 8 |
| 3. | Yr ysgolion y bydd y cynnig hwn yn effeithio arnynt | 13 |
| 4. | Y Cynnig – Ysgol Heol Goffa | 15 |
| 5. | Gwerthusiad o'r Trefniadau Presennol | 20 |
| 6. | Atodiad A – Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned | 23 |
| 7. | Atodiad B – Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg | 24 |
| 8. | Atodiad C – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb | 25 |

# 1. Cyflwyniad / Cefndir / Y Rhesymeg dros Newid

## Y Ddarpariaeth Bresennol / y Sefyllfa Bresennol / Cefndir

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cynnig darpariaeth ADD/ADDLl i ysgolion cynradd ac uwchradd yn Nwyrain a Gorllewin y sir drwy leoliadau arbenigol sy'n gysylltiedig ag ysgolion prif ffrwd, fodd bynnag Ysgol Heol Goffa yw'r unig Ysgol Arbennig annibynnol ar gyfer ADD/ADDLl yn Sir Gaerfyrddin.

Mae Ysgol Heol Goffa yn ysgol arbennig yn Llanelli ac yn cael ei chynnal gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer 75 o ddisgyblion rhwng 3-19 oed sydd ag anawsterau dysgu difrifol neu anawsterau dysgu dwys a lluosog. Mae gan bob disgybl Ddatganiad Anghenion Addysgol Arbennig neu Gynllun Datblygu Unigol (CDU). Ysgol Heol Goffa yw'r unig ysgol arbennig o fewn Sir Gaerfyrddin sy'n darparu ar gyfer disgyblion sydd ag Anawsterau Dysgu Difrifol ac Anawsterau Dysgu Dwys a Lluosog ac felly mae dalgylch yr ysgol yn cynnwys Sir Gaerfyrddin gyfan.

Addysgir y dysgwyr mewn 10 grŵp dosbarth a byddai gan ddosbarth nodweddiadol un athro a thri chynorthwyydd addysgu ar gyfer wyth disgybl ond mae'n rhaid i'r ysgol fod yn hyblyg er mwyn diwallu anghenion y plant. Mae'r gymhareb oedolion/disgyblion yn sicrhau y gellir bodloni anghenion gofal ac addysgol unigol y disgyblion. Cefnogir yr ysgol gan y gwasanaeth ffisiotherapi, therapi galwedigaethol a'r gwasanaeth therapi lleferydd ac iaith. Mae tîm nam ar y synhwyrau yr Awdurdod Lleol, seicolegydd addysg a thimau ymddygiad hefyd yn gweithio gyda'r ysgol. Mae cyfleusterau'r ysgol yn cynnwys ystafell ddosbarth anawsterau dysgu dwys a lluosog bwrpasol, ystafelloedd synhwyraidd, ardal chwarae feddal, gerddi synhwyraidd awyr agored, cyfleusterau therapi adlam, ardal chwarae antur ac ardaloedd dysgu awyr agored.

## Y Rhesymeg dros Newid

Ar hyn o bryd, mae mwy o ddisgyblion yn Ysgol Heol Goffa na'r lleoedd sydd ar gael ac mae'r duedd hon yn debygol o barhau yn y dyfodol agos. Mae galw sylweddol am leoedd sy'n rhoi pwysau sylweddol ar yr Awdurdod Lleol i ddod o hyd i leoliadau i ddisgyblion. Y nifer presennol o leoedd yn Ysgol Heol Goffa yw 75 gyda 101 o ddisgyblion ar y gofrestr yn ôl CYBLD Ionawr 2020.

O ganlyniad, mae'r Awdurdod Lleol ar hyn o bryd yn datblygu cynllun i gynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Heol Goffa i 120 o leoedd i ddisgyblion 3-19 oed sydd ag anawsterau dysgu difrifol neu anawsterau dysgu dwys a lluosog drwy ddarparu ysgol newydd gyda chyfleusterau sy'n addas i'r 21ain ganrif ar safle newydd.

Mae'r safle newydd arfaethedig gerllaw Ysgol Pen Rhos sydd newydd gael ei chwblhau sydd oddeutu 3.8 milltir o safle'r ysgol bresennol. Mae'r safle ym mherchnogaeth Cyngor Sir Caerfyrddin.

Mae safle a chynllun presennol Ysgol Heol Goffa yn wael, a daw hyn i'r amlwg wrth weld y bws mini gorlawn sy'n casglu a gadael plant ar ddechrau a diwedd bob diwrnod ysgol a'r diffyg parcio ar gyfer ceir o flaen yr ysgol.

Yn ôl arolygiad mwyaf diweddar Estyn a gwblhawyd ym mis Mawrth 2017, roedd yr amgylchedd dysgu yn 'ddigonol' a nodwyd bod rhannau o adeilad yr ysgol, yn enwedig neuadd yr ysgol a'r ardaloedd addysgu ar gyfer y disgyblion ôl-16, yn cyfyngu'n sylweddol ar ystod y cyfleoedd dysgu a all ddigwydd ar y safle. Dywedwyd hefyd nad oedd pwll hydrotherapi ar y safle a bod hyn yn ddiffyg.

Byddai adeilad arfaethedig yr ysgol newydd yn goresgyn yr anawsterau hyn a nodwyd gan Estyn drwy ddarparu cyfleusterau sy'n addas ar gyfer yr $21^{ain}$ Ganrif i ddiwallu anghenion plant ag anghenion mwy cymhleth ac anghenion addysgol arbennig dwys. Byddai'r datblygiad arfaethedig yn darparu gofod ychwanegol a gwell darpariaeth ar gyfer dysgu disgyblion ôl-16 o ran sgiliau bywyd a sgiliau galwedigaethol yn ogystal â mwy o le a darpariaeth chwarae well ar safle'r ysgol newydd arfaethedig.

Cyllidir y buddsoddiad hwn (75% Llywodraeth Cymru, 25% yr Awdurdod Lleol) yn amodol ar Lywodraeth Cymru yn cymeradwyo'r achos busnes.

Bydd gan yr ysgol newydd y manteision canlynol:

- Cynyddu'r lleoedd sydd ar gael i ddisgyblion yr ardal sydd ag anghenion addysgol arbennig cymhleth a dwys;
- Cyfleusterau ysgol sy'n addas ar gyfer yr $21^{ain}$ ganrif i ddiwallu anghenion plant ag anghenion mwy cymhleth ac anghenion addysgol arbennig dwys;
- Cyfleuster pwll hydrotherapi yn rhan o adeilad yr ysgol;
- Cyfleusterau newydd gyda'r adnoddau gofynnol megis ystafelloedd synhwyraidd, ystafelloedd therapi arbenigol, amgylcheddau dysgu therapiwtig allanol ac ati.
- Gwell amgylchedd dysgu i'r plant a'r bobl ifanc sy'n mynychu'r ysgol newydd;
- Mwy o le a gwell darpariaeth chwarae ar safle'r ysgol;
- Mwy o le a gwell darpariaeth ar gyfer addysgu sgiliau bywyd a sgiliau galwedigaethol i bobl ifanc;
- Darpariaeth arbenigol ac adnoddau arbenigol gydag ystafelloedd therapi ar gael ar safle'r ysgol newydd;
- Ystod o brofiadau dysgu i ddatblygu annibyniaeth a sgiliau bywyd wrth baratoi at fod yn oedolyn; a
- Cyfle i rannu adnoddau gydag Ysgol Pen Rhos sydd newydd agor gerllaw'r safle newydd arfaethedig.

# 2. Y Broses Ymgynghori

## Y Broses Ymgynghori

Bydd yr ymgynghori ynghylch y cynnig hwn yn dilyn y canllawiau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yn unol â'r hyn a nodwyd yn y Côd Trefniadaeth Ysgolion (2018).

## Â phwy yr ymgynghorir?

Anfonir y ddogfen hon at y partïon canlynol sydd â diddordeb, sef:

| | |
|---|---|
| Staff (Athrawon a Staff Atodol) – Ysgol Heol Goffa | Cyfarwyddwyr Addysg - yr holl Awdurdodau Cyfagos |
| Llywodraethwyr a Rhieni / Gwarcheidwaid – Ysgol Gynradd Heol Goffa | Cyfarwyddwr Addysg Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig Rufeinig |
| Cynghorwyr Sir Lleol | Estyn |
| Cynghorwyr Cymuned<br><br>Cyngor Tref Llanelli | Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol |
| Aelod Cynulliad (AC) / Aelodau Rhanbarthol / Aelod Seneddol (AS) | *Pob ysgol o fewn Sir Gâr |
| Gweinidogion Llywodraeth Cymru | Yr holl undebau perthnasol |
| Partneriaid AAA | Cymunedau am Waith |
| Is-adran Anghenion Addysgol Arbennig yr Awdurdod Lleol | Y Gronfa Waddol |
| ERW – Ein Rhanbarth ar Waith | Cyfuno |
| Teuluoedd yn Gyntaf Sir Gaerfyrddin | Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus |
| Gofal Plant / Blynyddoedd Cynnar | Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu Lleol |
| Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf | Dechrau'n Deg |
| Comisiynydd y Gymraeg | |

** Dogfen ymgynghori wedi'i hanfon at y Penaethiaid a Chadeirydd Llywodraethwyr pob Ysgol Gynradd ac Uwchradd yn Sir Gaerfyrddin.*

## Y Cyfnod Ymgynghori

Mae'r cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynnig hwn yn dechrau ar 21 Medi 2020 ac yn dod i ben ar 1 Tachwedd 2020.

Gall ymgyngoreion gyflwyno'u sylwadau o blaid neu yn erbyn cynnig. Ni fydd yr ymatebion a geir yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol. Os dymuna ymgyngoreion wrthwynebu, bydd angen iddynt wneud hynny'n ysgrifenedig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol y manylir arno ar dudalen 10.

### Ystyried eich Sylwadau

Yn ystod y cyfnod ymgynghori gallwch ofyn cwestiynau a mynegi eich barn drwy ysgrifennu llythyr i'r cyfeiriad isod neu drwy lenwi arolwg ar-lein gan ddefnyddio'r ddolen ganlynol:

https://carmarthenshire.researchfeedback.net/wh/s.asp?k=158099067725

Dylid anfon llythyrau i'r cyfeiriad canlynol heb fod yn hwyrach na chanol dydd ar 1 Tachwedd 2020.

Mr Gareth Morgans, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant,
Adeilad 2, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin, SA31 3HB
Neu drwy e-bost at: aaprma@sirgar.gov.uk

### Sesiwn galw heibio

Oherwydd goblygiadau parhaus mater Coronafeirws, derbyniwyd cyfarwyddyd i ohirio pob digwyddiad lle mae rhyngweithio rhwng staff, rhieni a'r gymuned ehangach ac o ganlyniad ni fydd sesiwn ymgynghori agored i drafod cynigion. Os ydych yn teimlo'n gryf am drafod y cynigion, cysylltwch â Mrs Sharon James trwy danfon e-bost i aaprma@sirgar.gov.uk a gellir trefnu cyfarfod rhithwir.

### Ymgynghori â'r Disgyblion

Bydd cyfle i ddisgyblion Ysgol Heol Goffa gymryd rhan yn y broses ymgynghori yn ystod sesiwn a gynhelir yn yr ysgol.

Bydd y wybodaeth a gesglir o'r sesiynau ymgynghori â'r disgyblion yn rhan o'r adroddiad ymgynghori a gyflwynir i'r Bwrdd Gweithredol i'w ystyried yn dilyn y cyfnod ymgynghori.

## Adroddiad Ymgynghori

Bydd adroddiad ymgynghori'n cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin o leiaf 2 wythnos cyn gwneud penderfyniad ynghylch a ddylid bwrw ymlaen i gyhoeddi hysbysiad statudol. Bydd copïau caled o'r adroddiad hefyd ar gael ar gais. Bydd yr adroddiad yn crynhoi'r sylwadau a gafwyd gan yr ymgyngoreion ac yn rhoi ymateb Cyngor Sir Caerfyrddin i'r materion hyn. Hefyd bydd yr adroddiad yn cynnwys barn Estyn ynghylch y cynnig a manylion am yr ymgynghori a gynhaliwyd â'r disgyblion.

Bydd Bwrdd Gweithredol Cyngor Sir Caerfyrddin yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac yn penderfynu a ydynt am fynd ymlaen â'r cynnig ai peidio.

Os yw'r Bwrdd Gweithredol yn penderfynu mynd ymlaen â'r cynnig mae'n rhaid i Gyngor Sir Caerfyrddin gyhoeddi hysbysiad statudol.

## Hysbysiad Statudol

Bydd yr hysbysiad statudol yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin a'i osod yn Ysgol Heol Goffa. Bydd copïau o'r hysbysiad ar gael i'r ysgol eu dosbarthu i'r disgyblion, i'r rhieni, i'r gwarcheidwaid, ac i'r staff (gall yr ysgol ddosbarthu'r hysbysiad drwy e-bost hefyd.)

### Cyfnod Gwrthwynebu Statudol

Bydd yr hysbysiad statudol yn amlinellu manylion y cynnig ac yn gwahodd unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu i wneud hynny'n ysgrifenedig cyn pen 28 o ddiwrnodau. Os derbynnir gwrthwynebiadau cyhoeddir adroddiad ynghylch y gwrthwynebiadau ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. Bydd copïau caled o'r adroddiad hefyd ar gael ar gais. Bydd yr adroddiad yn crynhoi'r materion a godwyd ac yn rhoi ymateb Cyngor Sir Caerfyrddin i'r gwrthwynebiadau hynny.

## Penderfynu ar y Cynnig

Cyngor Sir Caerfyrddin fydd yn penderfynu ar y cynnig. Gall y Cyngor Sir benderfynu cymeradwyo'r cynnig, gwrthod y cynnig neu gymeradwyo'r cynnig â newidiadau. Wrth wneud hynny, bydd y Cyngor Sir yn ystyried unrhyw wrthwynebiadau statudol a ddaeth i law.

**Rhoi gwybod am y penderfyniad**

Ar ôl penderfynu ynghylch y cynigion rhoddir gwybod i'r holl bartïon sydd â diddordeb bod y penderfyniad ar gael a fydd yn cael ei gyhoeddi'n electronig ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.

## Amserlen y Broses Statudol

Bydd y broses a'r amserlen statudol fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| 21 Medi 2020 | Dosbarthu'r Ddogfen Ymgynghori hon i bartïon penodol a phartïon eraill sydd â diddordeb. |
| 1 Tachwedd 2020 | Y dyddiad cau ar gyfer derbyn sylwadau ar y cynnig i'r Adran Addysg a Phlant. |
| 22 Rhagfyr 2020 | Bydd Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol i benderfynu a ddylid bwrw ymlaen i gyhoeddi hysbysiad statudol ai peidio.<br><br>NEU fel arall, daw'r cynnig i ben.<br><br>Cyhoeddir yr Adroddiad Ymgynhori ar wefan Cyngor Sir Gaerfyrddin o leiaf 2 wythnos cyn cyhoeddi hysbysiad statudol.<br><br>Os gwneir y penderfyniad i fynd ymlaen â'r mater yna cyhoeddir hysbysiad statudol. Bydd yr hysbysiad yn amlinellu manylion y cynnig ac fe'i cyhoeddir ar wefan y Cyngor a'i arddangos ger mynedfa'r ysgol a'r ysgolion sy'n destun y cynigion. Bydd copïau o'r hysbysiad ar gael i'r ysgol eu dosbarthu i'r rhieni, i'r gwarcheidwaid, ac i'r staff.<br>Ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad caniateir cyfnod o 28 diwrnod pryd y gwahoddir gwrthwynebiadau ysgrifenedig ffurfiol.<br><br>Bydd yr hysbysiad statudol yn rhoi manylion ynghylch y modd y gallwch gofnodi eich gwrthwynebiadau i'r cynnig. |
| Chwefror 2021 | Diwedd y cyfnod hysbysu ffurfiol o 28 diwrnod ar gyfer gwrthwynebiadau. Y Cyngor Sir fydd yn penderfynu ar y cynnig. Gall y Cyngor Sir benderfynu cymeradwyo'r cynnig, gwrthod y cynnig neu gymeradwyo'r cynnig gyda newidiadau, ac wrth benderfynu bydd yn rhoi |

| | |
|---|---|
| | ystyriaeth i unrhyw wrthwynebiadau statudol a ddaeth i law. |
| Mai 2021 | Y dyddiad olaf o ran rhoi gwybod i'r rhieni am y bwriad i roi'r cynnig ar waith.<br><br>Ar ôl penderfynu ynghylch y cynigion rhoddir gwybod i'r holl bartïon sydd â diddordeb bod y penderfyniad ar gael a fydd yn cael ei gyhoeddi'n electronig ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. |

## 3. Yr ysgolion y bydd y cynnig hwn yn effeithio arnynt

Mae dalgylch Ysgol Heol Goffa yn cwmpasu Sir Gaerfyrddin gyfan ac felly bydd pob ysgol yn cael gwybod am y cynnig.

| | | |
|---|---|---|
| **Enw'r Ysgol** | | Ysgol Heol Goffa |
| **Lleoliad yr Ysgol** | | SA15 3LS |
| **Sirol** | | **Sir Gaerfyrddin** |
| **Ystod Oedran** | | 3-19 |
| **Categori'r Ysgol** (Cymunedol, Gwirfoddol a Gynorthwyir, Gwirfoddol a Reolir | | Ysgol Arbennig |
| **Categori Cyfrwng Iaith** | | Cyfrwng Saesneg |
| **Nifer y disgyblion ar y gofrestr (Ionawr 2020)** | **Meithrin** | 4 |
| | **Cynradd** | 42 |
| | **11 i 16** | 38 |
| | **Ôl-16 oed** | 17 |
| | **Cyfanswm** | **101** |
| **Nifer y disgyblion ar y gofrestr yn flaenorol** | **Ionawr 2019** | 95 |
| | **Ionawr 2018** | 86 |
| | **Ionawr 2017** | 76 |
| | **Ionawr 2016** | 75 |
| **Amcanestyniad ynghylch Nifer y Disgyblion** | **Ionawr 2020** | Ddim yn berthnasol |
| | **Ionawr 2021** | Ddim yn berthnasol |
| | **Ionawr 2022** | Ddim yn berthnasol |
| | **Ionawr 2023** | Ddim yn berthnasol |
| | **Ionawr 2024** | Ddim yn berthnasol |
| **Lle** | | **75** |
| **Y Gost y Disgybl (2020/21)** | | £22,210 |
| **Cyllideb Ysgol (2020-21)** | | 2,110 (£ k) |
| **Categoreiddio Ysgolion (2019)** | | Gwyrdd |
| **Canlyniad Arolygiad Estyn** | | Arolygiadau Estyn - Ysgol Heol Goffa |
| **Categori Cyflwr Adeilad** | | **C** |

## Arolygiadau Estyn

Fel rhan o raglen genedlaethol o arolygu ysgolion, mae Estyn yn comisiynu adolygiadau o bob ysgol. Cynhaliwyd yr adolygiad diweddaraf o Ysgol Heol Goffa gan Estyn ym mis Mawrth 2017 a gall ymgyngoreion gyrchu'r canfyddiadau naill ai drwy wefan Estyn sef www.estyn.llyw.cymru neu gallwch ofyn i'r Awdurdod Lleol am gopi. (mae'n bosibl y codir tâl am lungopïo.)

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

- Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?
- Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?
- Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Yn y gwerthusiadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Dyfarniad** | **Beth mae'r dyfarniad yn ei olygu** |
|---|---|
| Ardderchog | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| Da | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| Digonol | Mae'r cryfderau'n drech na'r meysydd sydd i'w gwella |
| Anfoddhaol | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Gellir cael rhagor o fanylion am y fframwaith arolygu cyffredin drwy ddefnyddio'r ddolen hon
https://www.estyn.llyw.cymru/arolygu/esbonio-arolygu/fframwaith-arolygu-cyffredin

Dangosir dyfarniadau'r arolygiad yn y tabl canlynol ar gyfer Ysgol Heol Goffa:

| **Maes Arolygu** | **Dyfarniad** |
|---|---|
| Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
| Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Ardderchog |
| Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth | Ardderchog |

## 4. Y Cynnig – Ysgol Heol Goffa

### Y Cynnig

Yn dilyn y cynnydd yn y galw am leoedd i ddisgyblion, y cynnig yw:

> Adleoli Ysgol Heol Goffa i safle newydd a chynyddu nifer y lleoedd o 75 i 120 adeg Medi 2023 pan yr awgrymir agor adeilad newydd yr ysgol.


### Cefndir

Mae Ysgol Heol Goffa yn ysgol arbennig yn Llanelli ac yn cael ei chynnal gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Mae'r ysgol yn darparu lle ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 19 oed gydag anawsterau dysgu difrifol neu anawsterau dysgu dwys a lluosog.

### Y Rhesymeg dros Newid

Mae mwy o blant yn yr ysgol ar hyn o bryd na'r lleoedd sydd ar gael gyda 101 o ddisgyblion ar y gofrestr ym mis Ionawr 2020 ac nid yw'n diwallu anghenion y dysgwyr, o ganlyniad mae'r Awdurdod Lleol ar hyn o bryd yn datblygu cynllun i ddarparu adeilad ysgol newydd i Ysgol Heol Goffa ar safle newydd gyda chyfleusterau sy'n addas ar gyfer yr 21ain Ganrif.

Mae'r siart isod yn dangos y cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgol Heol Goffa rhwng Ionawr 2015 ac Ionawr 2020 (CYBLD).




| | Ion 15 | Ion 16 | Ion 17 | Ion 18 | Ion 19 | Ion 20 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Data | 74 | 75 | 76 | 86 | 95 | 101 |

## Gwybodaeth am Leoedd i Ddisgyblion

| | Ion 15 | Ion 16 | Ion 17 | Ion 18 | Ion 19 | Ion 20 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Heol Goffa Nifer y Lleoedd | 75 | 75 | 75 | 75 | 75 | 75 |
| Nifer y Disgyblion | 74 | 75 | 76 | 86 | 95 | 101 |
| Nifer y disgyblion yn ormod | 1 | 0 | +1 | +11 | +20 | +26 |

Fel y gellir gweld o'r tabl, mae mwy o blant yn Ysgol Heol Goffa na'r lleoedd sydd ar gael a hynny ers nifer o flynyddoedd. Bydd y cynnig hwn yn datrys y materion hyn drwy ddarparu adeilad ysgol newydd gyda lleoedd ar gyfer 120 o ddisgyblion â chyfleusterau sy'n addas ar gyfer yr 21ain Ganrif.

## Dalgylch yr Ysgol

Mae dalgylch Ysgol Heol Goffa yn cwmpasu Sir Gaerfyrddin gyfan. Ni fydd hyn yn newid fel rhan o'r cynnig hwn.

## Trefniadau Pontio

Ni fydd unrhyw newid i'r disgyblion. Bydd disgyblion yn aros ar safle presennol yr ysgol nes bydd yr ysgol newydd yn barod.

## Manteision ac Anfanteision y Cynnig / Cynllun

**Manteision**

- Adeilad ysgol newydd gyda chyfleusterau ar gyfer y 21ain Ganrif
- Pwll hydrotherapi yn rhan o adeilad yr ysgol
- Cynyddu nifer y lleoedd i 120
- Mwy o le a gwell darpariaeth chwarae ar safle'r ysgol newydd
- Cyfle i rannu adnoddau gydag Ysgol Pen Rhos sydd newydd agor gerllaw'r safle newydd arfaethedig.

**Anfanteision**

- Cynnydd o ran amser teithio i rai disgyblion
- Llywodraeth Cymru i gymeradwyo achosion busnes ar gyfer 75% o gyllid grant i adeiladu'r ysgol newydd sydd ei hangen.

## Risgïau a Mesurau i'w Lliniaru

| Risg | | Y Mesur i Liniaru'r Risg |
|---|---|---|
| 1. | Methu â chael cymeradwyaeth statudol i weithredu'r cynnig. | - Dilyn y canllawiau a bennwyd yn Nghôd Trefniadaeth Ysgolion 2018. |
| 2. | Galw am y ddarpariaeth yn lleihau. | - Mae hyn yn annhebygol gan fod y galw am leoedd yn gorbwyso nifer y lleoedd sydd ar gael ar hyn o bryd. |
| 3. | Amser teithio hwy ar gyfer rhai disgyblion. | - Caiff cludiant ei ddarparu yn unol â gofynion Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod neu lle mae disgybl/dysgwr yn destun y weithdrefn asesu statudol lle mae'r ALl o'r farn fod ei (h)anawsterau dysgu yn golygu fod cludiant yn "angenrheidiol'. Adolygir yr asesiadau yn rheolaidd. Penderfynir ar y math o gludiant a ddarperir drwy Asesiad Risg. |
| 4. | Integreiddio disgyblion i'r ysgol newydd. | - Bydd yr Awdurdod yn gweithio gyda'r disgyblion i sicrhau pontio ac integreiddio hwylus i'r ysgol newydd. |

## CYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG

Mae Ysgol Heol Goffa wedi ei gosod yn y categori ysgol arbennig cyfrwng Saesneg.

Mae'r Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth dwyieithog i ddysgwyr Sir Gaerfyrddin. Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod y ddarpariaeth ddwyieithog yn ein hysgolion a'n hunedau arbennig yn gyfyngedig. Byddwn yn gweithio gyda'r lleoliadau hyn wrth ddatblygu darpariaeth ddwyieithog er mwyn sicrhau bod dysgwyr ag anghenion ychwanegol cymhleth yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth a chymorth dwyieithog yn eu dewis iaith.

Mae mwyafrif y disgyblion yn ymateb yn briodol i gyfarchion Cymraeg a gallant ddefnyddio geiriau cyfarch cyffredin yn y cyd-destun cywir. Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu dealltwriaeth o ddiwylliant a threftadaeth Cymru yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn cynllunio'n briodol i ddatblygu sgiliau Cymraeg y disgyblion. Mae llawer o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o ddiwylliant a threftadaeth Cymru, er enghraifft drwy Eisteddfod flynyddol yr ysgol a theithiau preswyl i Langrannog.

## Goblygiadau Ariannol - Refeniw

Caiff Ysgol Heol Goffa ei chyllido yn unol â pholisi Ariannu Teg y Cyngor Sir a bydd yn derbyn adnoddau ar yr un sail ag unrhyw ysgol arall yn y Cyngor Sir, a hynny yn seiliedig ar nifer y disgyblion a chyfleusterau'r ysgol newydd.

## Trefniadau Derbyn

Mae plant yn cael eu derbyn i Ysgol Heol Goffa drwy gyfrwng panel cynhwysiant sy'n cynnwys Penaethiaid a chynrychiolwyr yr Awdurdod. Gwneir atgyfeiriadau i'r panel derbyn gan yr Adran Addysg drwy'r panel lleoliadau ar ôl ymgynghori â chynrychiolwyr o'r Adrannau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

## Dewisiadau Eraill a Ystyriwyd

Wrth ddatblygu dewis a ffefrir, bu'r Awdurdod yn ystyried amrywiaeth o ddewisiadau.

| | | |
|---|---|---|
| Dewis 1 | Y sefyllfa bresennol | Diystyriwyd oherwydd diffyg lle o ran y nifer sydd ar y gofrestr ar hyn o bryd, safle cyfyngedig. |
| Dewis 2 | Ailwampio/ailfodelu safle presennol yr ysgol | Dim digon o le yn yr ardal awyr agored i ddatblygu safle'r ysgol bresennol. |
| Dewis 3 | Adeiladu ysgol newydd ar gyfer 90 o blant gan ddarparu cyfleusterau sy'n addas i'r 21ain Ganrif gyda chanolfan seibiant â 5 gwely. | Dim digon o le gan fod 101 o ddisgyblion ar y gofrestr (Ionawr 2020). |
| Dewis 4 *(Ffafrir)* | Adeiladu ysgol newydd ar gyfer 120 o ddisgyblion gan ddarparu cyfleuster sy'n addas ar gyfer yr 21ain Ganrif gyda chanolfan seibiant â 5 gwely a phwll hydrotherapi bach. | Opsiwn a ffefrir ar gyfer y tymor canolig i'r hirdymor. |
| Dewis 5 | Ysgol newydd ar gyfer 120 o blant gan ddarparu cyfleusterau sy'n addas ar gyfer yr 21ain Ganrif gydag uned seibiant â 6 gwely a phwll hydrotherapi mawr. | Diystyriwyd gan nad oedd yr opsiwn hwn yn unol â gofynion yr ardal. |

## Asesiad o'r Effaith ar Gludiant

Caiff cludiant ei ddarparu yn unol â gofynion Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod neu lle mae disgybl/dysgwr yn destun y weithdrefn asesu statudol lle mae'r Awdurdod Lleol o'r farn fod ei (h)anawsterau dysgu yn golygu fod cludiant yn "angenrheidiol'. Adolygir yr asesiadau yn rheolaidd. Penderfynir ar y math o gludiant a ddarperir drwy Asesiad Risg. Mae'r safle ar gyfer yr ysgol newydd tua 3.8 milltir o safle presennol Ysgol Heol Goffa.

## Derbyniadau Cyfalaf

Bydd unrhyw dderbyniadau cyfalaf a geir o ganlyniad i'r cynnig hwn yn cael eu hailfuddsoddi yn y Rhaglen Moderneiddio Addysg.

## Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

Gweler Atodiad A o'r ddogfen ymgynghori hon, i gael manylion llawn am yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned a gynhaliwyd.

## Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Gweler Atodiad B o'r ddogfen ymgynghori hon lle ceir manylion llawn am yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a gynhaliwyd.

## Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Gweler Atodiad C o'r ddogfen ymgynghori hon, lle ceir manylion am yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd.

## 5. Gwerthusiad o'r Trefniadau Presennol

### Ansawdd a safonau mewn addysg

### Safonau

Nid yw'n briodol cymharu'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni yn yr ysgol â chyfartaleddau cenedlaethol na dadansoddi tueddiadau mewn perfformiad cyffredinol dros amser oherwydd yr ystod eang o anghenion addysgol arbennig disgyblion. Nid oes unrhyw wahaniaeth sylweddol rhwng perfformiad pob disgybl a pherfformiad bechgyn a merched, y disgyblion hynny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu'r rhai sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol.

Erbyn iddynt adael yr ysgol, mae pob un wedi ennill o leiaf un cymhwyster neu ragor mewn cyrsiau achrededig sy'n cyfateb yn dda i'w hanghenion a'u galluoedd unigol.

### Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae ansawdd yr addysgu yn gyson uchel ar draws yr ysgol. Mae gan bob athro ddisgwyliadau uchel o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni. Maent yn herio disgyblion yn briodol i ganolbwyntio a chwblhau tasgau hyd eithaf eu gallu.

Mae athrawon a staff cymorth yn cydweithio'n agos fel tîm cryf ac effeithiol. Mae pob un o'r staff yn rheoli ymddygiad heriol yn fedrus iawn ac mae hyn yn galluogi disgyblion i barhau i ymgysylltu â'u dysgu ac i wneud cynnydd.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n cwrdd ag anghenion y disgyblion yn eithriadol o dda. Mae athrawon yn cynllunio ar y cyd er mwyn gwneud defnydd effeithiol iawn o adnoddau'r ysgol a sicrhau profiadau dysgu ysgogol a diddorol ar draws yr ysgol.

Mae pwyslais cryf ar draws yr ysgol ar sicrhau bod disgyblion yn datblygu'r medrau sydd eu hangen arnynt i fod yn fwy annibynnol. Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o weithgareddau allgyrsiol, clybiau a phrofiadau preswyl, gan gynnwys cerddoriaeth, drama, pêl-rwyd a garddio. Mae'r rhain yn effeithiol iawn o ran datblygu hyder disgyblion a'r sgiliau ehangach y bydd eu hangen arnynt yn eu bywydau yn y dyfodol. Mae disgyblion ôl-16 yn cael cyfleoedd perthnasol i gymryd rhan mewn profiad gwaith a gweithgareddau menter sy'n eu paratoi'n dda ar gyfer y byd gwaith.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn darparu lefel uchel iawn o ofal, cymorth ac arweiniad i'w disgyblion. Mae gweithdrefnau'r ysgol i hybu ymwybyddiaeth o ffyrdd iach o fyw a datblygu llesiant disgyblion yn rhagorol. Mae darpariaeth helaeth i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n datblygu eu lles corfforol ac emosiynol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol iawn gyda gweithwyr proffesiynol o ystod addas o asiantaethau, sy'n sicrhau cynllunio cydweithredol effeithiol ar gyfer anghenion iechyd unigol disgyblion.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd helaeth i ddisgyblion ddatblygu sgiliau bywyd pwysig, megis dysgu sut i fod yn ddiogel ar-lein, sut i siopa a sut i baratoi prydau iach.

Mae polisïau a gweithdrefnau effeithiol iawn ar waith ar gyfer rheoli ymddygiad disgyblion, ac mae'r staff yn gwneud hynny'n eithriadol o dda. Mae'r staff yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol gyda'r disgyblion ac yn rheoli ymddygiad disgyblion yn fedrus.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r Pennaeth ac aelodau o'r uwch dîm arweinyddiaeth yn darparu arweinyddiaeth eithriadol i'r ysgol. Maent yn cyfleu cyfeiriad strategol clir i'r ysgol sy'n canolbwyntio'n dda ar ddatblygu medrau academaidd a chymdeithasol disgyblion trwy ddarparu profiadau dysgu perthnasol, pleserus a heriol.

Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn effeithiol iawn yn datblygu sgiliau arwain y nifer fawr o staff sy'n gyfrifol am gydlynu pynciau ac arwain prosiectau gwella ysgolion.

## Effaith y Cynnig

Os caiff ei gymeradwyo, bydd y cynnig yn darparu amgylchedd dysgu o ansawdd uchel i helpu i wella canlyniadau i bob dysgwr. Mae llawer o ymchwil wedi dangos bod dysgwyr yn cyflawni gwell canlyniadau pan fo'r amgylchedd dysgu o'r safon uchaf.

Bydd y cynnig hwn yn sicrhau y bydd y safonau sydd eisoes yn rhagorol yn cael eu cynnal ac yn wir yn gwella o ganlyniad i'r buddsoddiad arfaethedig hwn.

## Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion

Mae'r Cyngor Sir wedi ystyried a oes lleoedd digonol ar gael a'r galw tebygol am leoedd yn y dyfodol.

## Adnoddau addysg a goblygiadau ariannol eraill

Fel y gwelir ar dudalen 13, mae prinder lleoedd ar hyn o bryd yn Ysgol Heol Goffa. Bydd y cynnig hwn yn sicrhau bod digon o leoedd i ddisgyblion mewn ysgol arbennig ar gyfer y tymor canolig i'r hirdymor.

## Lleoedd dros ben/Nifer y lleoedd ar gyfer disgyblion yn yr ysgol.

Mae lle ar gyfer 75 o ddisgyblion yn Ysgol Heol Goffa fodd bynnag, yn ôl data disgyblion ar gyfer Ionawr 2020, mae 101 o ddisgyblion ar y gofrestr, sef 26 lle yn fwy o ddisgyblion na'r lleoedd sydd ar gael. Er mwyn ateb y galw presennol ac yn y dyfodol, mae angen cynyddu nifer y lleoedd yn yr ysgol ar gyfer y tymor canolig i'r hirdymor. Os na chaiff y ddarpariaeth ei chynyddu efallai y bydd yn rhaid i ddisgyblion deithio y tu allan i'r Sir i gael y gofal arbenigol sydd ei angen arnynt a hynny ar gost sylweddol i'r Awdurdod Lleol.

## Costau Trafnidiaeth

Bydd trefniadau cludiant yn cael eu gwneud yn unol â pholisi'r Cyngor Sir ar gyfer cludo o'r cartref i'r ysgol.

## Costau Cyfalaf/ Derbyniadau Cyfalaf

Os caiff y cynnig ei gymeradwyo, bydd yr ysgol newydd yn mynd i'r afael â'r diffyg presennol yn nifer y lleoedd fel rhan o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor.

Cyllidir y buddsoddiad hwn yn gyfartal (75% Llywodraeth Cymru, 25% yr Awdurdod Lleol) yn amodol ar Lywodraeth Cymru yn cymeradwyo'r achos busnes.

## 6. Atodiad A – Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

Proffiliau wardiau – Mae Ysgol Heol Goffa ar hyn o bryd yn ward Lliedi, gellir gweld proffil y ward drwy glicio ar y ddolen ganlynol Proffil Ward Lliedi

Mae ward Lliedi o fewn ardal cymunedau yn gyntaf.

Bydd safle'r ysgol newydd yn ward Tŷ-isa/Glanymôr.

**Datblygiad Arfaethedig**

Os caiff ei gymeradwyo byddai'r gwelliannau arfaethedig i'r ysgol yn cynnig manteision sylweddol i ddisgyblion a'r gymuned fel y nodir isod:

- **Disgyblion**
  Mae'r cynnig hwn yn ceisio sicrhau amgylchedd dysgu o safon uchel gan gynyddu'r lleoedd sydd ar gael i ddisgyblion yn yr ardal sydd ag anghenion addysgol arbennig cymhleth a dwys. Bydd y cyfleusterau gwell yn gwella addysgu a dysgu ar gyfer dysgwyr yn uniongyrchol gan ddatblygu ysgol â'r adnoddau angenrheidiol, sef ystafelloedd synhwyraidd, ystafelloedd therapi, amgylcheddau addysgu allanol therapiwtig ac ati. Byddai'n cynnig mwy o le i ddysgwyr a gwell darpariaeth chwarae a mwy o le a gwell darpariaeth ar gyfer dysgu sgiliau bywyd a sgiliau galwedigaethol i bobl ifanc. Byddai'r disgyblion yn elwa ar rannu maes chwarae 3G ag ysgol Pen Rhos sydd gerllaw'r safle newydd arfaethedig ar gyfer Ysgol Heol Goffa.

- **Y Gymuned**
  Byddai'r ysgol newydd arfaethedig o fudd i'r gymuned drwy alluogi defnydd o'r cyfleusterau arbenigol y tu allan i oriau ysgol.
    - Amrywiaeth o fannau awyr agored hawdd mynd atynt (amgylchedd dysgu ac addysgu defnyddiol sy'n amhrisiadwy ar gyfer defnydd hamdden, cymdeithasol ac estynedig i'r ysgol a'r gymuned). Bydd y man awyr agored yn cynnwys mynediad i'r Maes Chwarae Amlddefnydd.
    - Defnydd cymunedol o adnoddau TGCh fel bysellfyrddau Braille ar gyfer ymwelwyr yn ogystal â disgyblion a'r staff.
    - Rhannu cae 3G ag Ysgol Pen Rhos wrth ymyl y safle newydd arfaethedig.
    - Canolfan seibiant 5 gwely pwrpasol.
    - Pwll hydrotherapi.

Caiff pwyntiau mynediad diogel eu cynnwys yn y cynllun a fydd yn caniatáu i'r gymuned fynd i mewn i adeilad yr ysgol a mannau chwarae caled allanol gyda'r nos ac ar benwythnosau mewn cydweithrediad â'r Pennaeth.

## 7. Atodiad B – Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Gweledigaeth Cyngor Sir Caerfyrddin yw darparu gwasanaeth a fydd yn sicrhau mynediad i gyfleoedd dysgu o ansawdd uchel i bob plentyn, person ifanc ac oedolyn, ac felly yn eu galluogi i gyflawni eu llawn botensial yng nghyd-destun natur ddwyieithog unigryw'r sir.

Categori iaith Ysgol Heol Goffa yw cyfrwng Saesneg a Saesneg yw prif iaith bron pob un o'r disgyblion.

Mae mwyafrif y disgyblion yn ymateb yn briodol i gyfarchion Cymraeg a gallant ddefnyddio geiriau cyfarch cyffredin yn y cyd-destun cywir. Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu dealltwriaeth o ddiwylliant a threftadaeth Cymru yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn cynllunio'n briodol i ddatblygu sgiliau Cymraeg y disgyblion. Mae llawer o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o ddiwylliant a threftadaeth Cymru ac un enghraifft yw Eisteddfod flynyddol yr ysgol a theithiau preswyl i wersyll yr Urdd yn Llangrannog.

# 8. Atodiad C – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

**Cyngor Sir Caerfyrddin**

**Asesu Effaith**

**Deddf Cydraddoldeb 2010**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 (y Ddeddf) yn dwyn ynghyd y deddfau gwrth-wahaniaethu blaenorol ac yn rhoi un Ddeddf sengl yn eu lle. Mae'n symleiddio ac yn cryfhau'r gyfraith, yn dileu anghysonderau ac mae'n ei gwneud yn haws i bobl ei deall a chydymffurfio â hi. Daeth y rhan fwyaf o'r Ddeddf i rym ar 1 Hydref 2010.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswydd cydraddoldeb newydd sector cyhoeddus (y 'ddyletswydd gyffredinol'), sy'n cymryd lle'r dyletswyddau unigol yn ymwneud â chydraddoldeb o ran hil, anabledd a rhywedd. Daeth hon i rym ar 5 Ebrill 2011.

**Beth yw'r ddyletswydd gyffredinol?**

Nod y ddyletswydd gyffredinol yw sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus, a'r rhai sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus, yn ystyried sut y gallant gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach drwy hybu cydraddoldeb a chysylltiadau da yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae'r ddyletswydd yn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn rhan annatod o ddylunio polisïau a darparu gwasanaethau a'u bod yn cael eu hadolygu'n barhaus. Bydd hyn yn sicrhau gwell deilliannau i bawb.

Mae'r dyletswyddau yn rhwymedigaethau cyfreithiol. Os na chyflawnir y dyletswyddau, gall arwain at her gyfreithiol yn erbyn awdurdodau.

O dan y ddeddfwriaeth cydraddoldeb, mae dyletswyddau cyfreithiol ar awdurdodau cyhoeddus i roi 'sylw priodol' i'r angen am ddileu gwahaniaethu ac i hybu cydraddoldeb o ran hil, anabledd a rhywedd, gan gynnwys ailbennu rhywedd, yn ogystal â hybu cysylltiadau hiliol da. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswydd newydd ar y sector cyhoeddus sy'n ymestyn cwmpas hyn i gynnwys oedran, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, a chrefydd neu gred. Mae'r gyfraith yn mynnu bod y

ddyletswydd hon i roi ‘sylw priodol’ yn cael ei dangos yn y broses o wneud penderfyniadau. Mae'n bwysig hefyd nodi fod awdurdodau cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r dyletswyddau cydraddoldeb yn debygol hefyd o fod yn ddarostyngedig i'r rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Hawliau Dynol ac felly mae'n ddoeth ystyried fel rhan o'r un broses yr effaith bosibl y gallai penderfyniadau ei chael ar hawliau dynol.

**Dull Sir Gaerfyrddin o ran yr Effaith ar Gydraddoldeb**

Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn ystyried yr effaith bosibl y bydd ei bolisïau a'i arferion arfaethedig yn ei chael ar gydraddoldeb, ac er mwyn dangos tystiolaeth ein bod wedi gwneud hynny, bydd angen i bob cynnig gael ei ategu gan yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb atodedig. Os yw'r asesiad hwn yn clustnodi effaith sylweddol, mae'n bosibl y bydd angen rhagor o fanylion.

Cyhoeddi adroddiad ynghylch asesiadau

Os yw'n amlwg o'r asesiad fod yr effaith debygol ar allu'r Awdurdod i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol yn un sylweddol, bydd rhaid iddo gyhoeddi adroddiad.

**Asesiadau Cychwynnol a Manwl o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

Mae'r Asesiad Cychwynnol o'r Effaith ar Gydraddoldeb (atodiad 1) yn ddull syml a chyflym o asesu effaith polisi, swyddogaeth, gweithdrefn, penderfyniad, gan gynnwys toriadau ariannol, ar un neu ragor o'r nodweddion gwarchodedig.

Mae'n rhaid i'r Rheolwr Gwasanaeth sy'n gyfrifol am y polisïau, y swyddogaethau, y gweithdrefnau a'r penderfyniadau ariannol newydd neu ddiwygiedig perthnasol, gynnal o leiaf Asesiad Cychwynnol o'r Effaith ar Gydraddoldeb, a chwblhau Asesiad manwl o'r Effaith ar Gydraddoldeb lle bo hynny'n berthnasol (atodiad 2). Mae'n rhaid atodi'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn bapur cefndir gyda'r adroddiadau i'r Bwrdd Gweithredol ac i'r Pwyllgor Craffu.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb - Y broses sydd i'w dilyn lle nodwyd goblygiadau o ran Adnoddau Dynol

Y rheolwr gwasanaeth/rheolwr arweiniol yn nodi'r polisi, y swyddogaeth, y weithdrefn neu newid polisi.

Cynnal asesiad cychwynnol neu asesiad manwl o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Gweler atodiad 1 ac, os yw'n ofynnol, ewch ymlaen i gwblhau atodiad 2

<u>Polisi Adnoddau Dynol newydd neu newid polisi Adnoddau Dynol</u>

Rhannu'r Asesiad a'r polisi drafft â'r

<u>Newid trefniadaeth/ailstrwythuro</u>

Rhoi'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, a'r newidiadau a gynigir, gerbron y panel adolygu

Eu rhoi'r i'r Tîm Polisi a Phartneriaeth i'w cymeradwyo (cydraddoldeb@sirgar.gov.uk)

Clustnodi newidiadau/rhagor o waith i'w gwblhau neu gyfeirio'r mater at y Gwasanaethau Cyfreithiol

## Templed ar gyfer Asesiad Cychwynnol o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Atodiad 1

<table>
<tr><td>Adran:<br><br>Addysg a Phlant</td><td colspan="2">Cwblhawyd gan (arweinydd):<br><br>Sara Griffiths</td><td>Dyddiad yr asesiad cychwynnol: Mehefin 2020<br><br>Dyddiadau adolygu: Mehefin 2021</td></tr>
<tr><td>Y maes a asesir: (h.y. enw'r polisi, y swyddogaeth, y weithdrefn, yr arfer neu benderfyniad ariannol)</td><td colspan="3">Cynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Heol Goffa a'i hadleoli i safle ysgol newydd gyda chyfleusterau sy'n addas i'r 21$^{ain}$ Ganrif.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Ydy'r swyddogaeth/polisi, gweithdrefn, arfer neu benderfyniad dan sylw yn bodoli'n barod neu a yw'n un newydd?</td><td colspan="2">Cynnig ynghylch Ad-drefnu Ysgolion – Rhaglen Moderneiddio Addysg</td></tr>
<tr><td colspan="4">Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd wrth lunio'r asesiad a'r polisi? (rhestru yn unig)</td></tr>
<tr><td colspan="4">• Rhaglen Ysgolion yr 21$^{ain}$ Ganrif<br>• Y Rhaglen Moderneiddio Addysg<br>• Canllawiau Llywodraeth Cymru – Côd Trefniadaeth Ysgolion 2018<br>• Data CYBLD 2020<br>• Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td colspan="2">1. Disgrifiwch nodau, amcanion neu ddibenion y swyddogaeth/polisi, arfer, gweithdrefn neu benderfyniad arfaethedig a phwy fydd yn cael budd ohonynt.</td><td colspan="4">Darparu ysgol arbennig newydd ar gyfer 120 o ddisgyblion yn Ysgol Heol Goffa ar safle ysgol newydd gyda chyfleusterau sy'n addas i'r 21ain Ganrif i ddiwallu anghenion plant ag anghenion mwy cymhleth ac anghenion addysgol arbennig dwys. Bydd y cynnydd yn nifer y lleoedd o fudd i'r ysgol drwy fynd i'r afael â'r problemau a gafwyd o ran nifer y lleoedd yn ystod y blynyddoedd diwethaf a bydd hefyd yn sicrhau y gall yr ysgol ymdopi â'r galw yn y dyfodol. Bydd canolfan seibiant 5 gwely hefyd yn cael ar gael ar safle'r ysgol newydd a phwll hydro bach.</td></tr>
<tr><td colspan="2" rowspan="2">Mae'n ofynnol o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus fod y Cyngor yn rhoi "sylw priodol" i'r angen i wneud y canlynol:-<br><br>(1) dileu gwahaniaethu, aflonyddu a fictimeiddio anghyfreithlon;<br><br>(2) hybu cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau ; a<br><br>(3) meithrin perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau<br><br>(gweler y nodiadau esboniadol)</td><td rowspan="2">2. Faint o effaith fydd ar bob grŵp/nodwedd warchodedig o ran tri nod y ddyletswydd?<br><br>Nodwch a fydd yn cael effaith fawr, effaith ganolig, effaith fach neu ddim effaith o gwbl.</td><td colspan="2">3. Clustnodwch y risg neu'r effaith gadarnhaol bosibl ar gyfer pob grŵp/nodwedd warchodedig?</td><td rowspan="2">4. Os oes effaith negyddol anghymesur, pa ffactorau lliniarol ydych wedi'u hystyried?<br><br>DDIM YN BERTHNASOL</td></tr>
<tr><td>Y Risgiau</td><td>Yr Effeithiau Cadarnhaol</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Nodweddion</td><td>Oedran</td><td>C</td><td>Risg Niwtral</td><td>Bydd yr ysgol newydd yn darparu ar gyfer disgyblion 3-19 oed</td><td></td></tr>
<tr><td>Anabledd</td><td>C</td><td>Risg Niwtral</td><td>Cyfleusterau'r 21ain Ganrif ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig cymhleth a dwys</td><td></td></tr>
</table>

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Ailbennu rhywedd** | N | Risg Niwtral | | |
| | **Hil** | N | Risg Niwtral | | |
| | Crefydd/Cred | N | Risg Niwtral | | |
| | **Beichiogrwydd a mamolaeth** | N | Risg Niwtral | | |
| | **Cyfeiriadedd Rhywiol** | N | Risg Niwtral | | |
| | **Rhyw** | N | Risg Niwtral | | |
| | **Yr Iaith Gymraeg** | C | Risg Niwtral | | |
| | **Unrhyw faes arall** | N | Risg Niwtral | | |

| | |
|---|---|
| **5. A fu unrhyw ymgynghori/ymgysylltu o ran y nodweddion gwarchodedig priodol?** | **DO** ☒ Bydd ymgynghori anffurfiol a ffurfiol yn cael ei gyflawni fel y nodwyd yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru. Byddwn yn ymgynghori'n anffurfiol â'r Pennaeth a Chadeirydd y Llywodraethwyr. Fel rhan o'r cyfnod Ymgynghori Ffurfiol, bydd ymgynghori â'r prif randdeiliaid a restrir ar dudalen 8 o'r ddogfen ymgynghori hon.<br><br>**NADDO** ☐ |
| **6. Pa gam/gamau a gymerwch i leihau unrhyw effeithiau negyddol anghymesur, os bydd rhai?** Sicrhau bod y rhieni, y staff a'r llywodraethwyr yn cael gwybodaeth lawn ym mhob cam o'r ymgynghori. | |
| **7. Caffael** | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ar ôl crynhoi'r dystiolaeth ar gyfer yr asesiad hwn, a oes unrhyw oblygiadau o ran caffael i'r gweithgaredd, i'r cynnig neu i'r gwasanaeth?<br><br>**Gofynnir i chi gynnwys canfyddiadau'r asesiad hwn yn eich cynllun caffael. Cysylltwch â'r Uned Caffael Corfforaethol i gael rhagor o gyngor.** DDIM YN BERTHNASOL | | | |
| **8. Adnoddau Dynol**<br><br>Ar ôl crynhoi'r dystiolaeth ar gyfer yr asesiad hwn, a oes unrhyw oblygiadau o ran adnoddau dynol i'r gweithgaredd, i'r cynnig neu i'r gwasanaeth?<br>Gan y bydd cynnydd yn nifer y lleoedd, mae'n bosibl y bydd angen staff ychwanegol. Fodd bynnag, rhoddir sylw i hyn wrth i'r cynllun datblygu symud ymlaen, a byddwn yn ymgynghori'n llawn ag Adnoddau Dynol. | | | |
| **9. Ar sail y wybodaeth yn adran 2 a 6, a ddylai Asesiad Manwl o Effaith gael ei gynnal o ran y swyddogaeth/y polisi/y weithdrefn/yr arfer neu'r penderfyniad?**<br>(argymhellir bod hyn yn digwydd os oes mwy nag un effaith fawr wedi'i nodi yn adran 2) | DYLAI ☐ | NA DDYLAI ☒ | |
| **Cymeradwywyd gan:**<br><br>Pennaeth y Gwasanaeth | **Simon Davies** | **Dyddiad: Mehefin 2020** | |

Diolch i chi am gwblhau'r asesiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth ynghylch Asesu Effaith, cysylltwch â'r canlynol -

Y Tîm Polisi a Phartneriaeth

Adran y Prif Weithredwr

01267 22(4914) / (4676)

cydraddoldeb@sirgar.gov.uk

**Ar ôl cwblhau'r asesiad, a fyddech cystal ag anfon copi ohono i'r cyfeiriad e-bost uchod.**

TUDALEN OLAF